COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 1 MAI 2025 AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | |
|---|---|
| C Davies | GH Haines |

Presennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| J Llewellyn-Hopkins | A Wathan | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Lewis a RL Penhale-Thomas

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Councillor Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| David Wright | Dirprwy Bennaeth Gofal Cymdeithasol I Blant |
| Jane Lewis | Rheolwr Grwp - Gwasanaethau Darparwr Gofal Uniongwrchol |
| Tania Turner | Rheolwr Gwasanaeth Darparwyr - Cefnogaeth Cartref |
| Ceri Williams | Rheolwr Gwasanaeth Darparwyr - Anableddau Dysgu, Llety, Iechyd Meddwl & Gwasanaethau Cysylltiedig |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Datganiadau o Fuddiannau

Dim.

## 28. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 2 dyddiedig 13 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

## 29. Cymorth Cynnar, Atal ac Ymylon Gofal

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch nifer yr acronymau a ddefnyddir mewn adroddiadau gan achosi rhwystr rhag deall yr adroddiadau'n llawn a'r termau sydd wedi eu cynnwys ynddynt ac argymhellodd y dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys rhestr o dalfyriadau a'u hystyron i gynorthwyo'r Pwyllgor a'r cyhoedd.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor bryder nad yw gwasanaethau ymyrraeth gynnar efallai yn cael eu blaenoriaethu gan eu bod yn anstatudol ac **argymhellodd** ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru (a'i gopïo i Aelodau lleol y Senedd) yn nodi'r canlynol:<br><br>a. bod Cymorth Cynnar ac Atal yn ganolog i strategaeth y Cyngor i gefnogi ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned; |

| | |
|---|---|
| | b. y byddai'n peri risg gorfforaethol i'r Awdurdod pe na bai gwasanaethau o'r fath yn cael eu hariannu'n ddigonol; ac<br>c. yn tynnu sylw at effaith:<br>i) hysbysiad hwyr a chyllid grant ôl-weithredol ar gynllunio ariannol a chynllunio gweithlu;<br>ii) ar staff ar gontractau blynyddol treigl a ariennir gan grant; a<br>iii) diffyg codiad chwyddiant ar bwysau cyllidebol a chyllido'r gweithlu.<br><br>3. Er cydnabod bod yr amserlenni yn y Cynllun Gweithredu wedi cael eu pennu gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch pa mor gyraeddadwy oedd yr amserlenni uchelgeisiol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ac **argymhellodd** y dylid cynnwys cerrig milltir cywir a mesuradwy ynghyd ag amserlenni yn y Cynllun Gweithredu, ac i fod o gymorth wrth fonitro.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol:**<br><br>**Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n bobl LHDT+, ar ôl cael gwybod bod y rhan fwyaf o'r gefnogaeth sydd ar gael yn dod o'r Gyfarwyddiaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

**30. Arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Rheoledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gydag Aelod o'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â'r diffyg eglurder ynghylch y cyfrifoldeb dros dalu cost cyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfer gweithwyr gwasanaethau a gomisiynwyd ac **argymhellodd** ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am arwydd clir ynghylch p'un a fydd y cyfraniadau hyn |

| | |
|---|---|
| | yn cael eu talu drwy gyllid ychwanegol yn setliad yr Awdurdod ynteu a fydd hyn yn bwysau cost ychwanegol i Ben-y-bont ar Ogwr.<br><br>2. Tynnodd y Pwyllgor sylw at werth ymweliadau rota Aelodau ac **argymhellodd** y dylid ailadrodd eu pwysigrwydd a'i gyfleu i holl Aelodau'r Cyngor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

## 31. Adroddiad Gwybodaeth – Perfformiad Chwarter 3 2024/25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Perfformiad Chwarter 3 2024-25, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2024-25 a'r Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2024-25 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor a bu'n ystyried y dangosfwrdd a'r traciwr wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

## 32. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A ar yr amod bod yr argymhellion isod yn cael eu cynnwys, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ychwanegu'r adroddiadau canlynol at eu Blaenraglen Waith:<br><br>a. Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol; a |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | b. Cymorth Cynnar – Trefniadau Gweithredu wrth y Drws Blaen.<br>2. Yn dilyn ystyried y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3 2024-25, **gofynnodd** y Pwyllgor am ddiweddariad ysgrifenedig ar berfformiad y canlynol:<br><br>a. Canran y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd a leihaodd yr angen am gymorth, a gynhaliodd yr un lefel o gymorth ac a liniarodd yr angen am gymorth (SSWB38).<br>b. Nifer y bobl sy'n cael mynediad at eiriolaeth annibynnol i gefnogi eu hawliau o fewn gofal cymdeithasol plant a gofal cymdeithasol oedolion (SSWB61).<br>c. Amser aros cyfartalog ar restr aros y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (SSWB63).<br><br>3. Gofynnodd y Pwyllgor am Grynodeb Aelodau yn egluro'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth rheoledig sy'n seiliedig ar lety ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gynnwys y canlynol:<br><br>a. p'un a ydynt yn y sector preifat, cyhoeddus ynteu elusennol;<br>b. sut mae'r staff yn cael eu contractio; a<br>c. perchnogaeth yr adeiladau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

## 33. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

## 34. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nid oedd yr eitem ganlynol i'w chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi ei heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 1972, oherwydd ei bod yn ymwneud â gwybodaeth sy'n gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes person penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno). Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNODD y Pwyllgor yn unol â'r Ddeddf i ystyried yr eitem hon yn breifat a chafodd y cyhoedd eu cau allan o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

**35. Cymeradwyo Cofnodion a Eithriwyd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion eithriedig 13 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 1 Mai 2025 |

I gael gweld mwy o’r ddadl a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12:23.

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**